



GWASANAETHAU

TALU AM WASANAETHAU GOFAL YN 18 OED

- **Beth sy'n digwydd i gyllid pan fydd y person yn troi'n 18 oed ac yn derbyn gwasanaethau gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol?**

Ar y dyddiad y daw'r person yn 18 oed, daw'n oedolyn ac yn destun deddfwriaeth wahanol mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd ei anghenion yn cael eu hasesu dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Os asesir bod ganddo anghenion cymwys, caiff cynllun gofal a chymorth ei greu i fodloni'r anghenion a nodwyd.

O 18 oed bydd yn cael ei asesu'n ariannol o ran ei allu i dalu am wasanaethau a ddarperir gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Bydd y math o wasanaeth a ddarperir yn penderfynu pa set o reolau a ddefnyddir er mwyn cyfrifo faint fydd ei angen arno i gyfrannu at y gwasanaeth.

- **Mae'r person yn byw gartref ond yn mynd i'r ysgol/coleg bob dydd.**

Gallwch barhau i hawlio Credyd Treth Plant / Budd-dal Plant hyd nes bod eich plentyn yn troi'n 19 oed (20 mewn rhai amgylchiadau), ar yr amod nad yw'r cwrs yn gwrs addysg 'uwch'.

Os yw'r person yn dymuno hawlio budd-daliadau ei hun, yna gall hawliad am Gredyd Cynhwysol / Lwfans Cyflogaeth a Chymorth gael ei brosesu ar y wefan www.gov.uk.

Eich lle chi yw penderfynu beth yw'r dewis gorau i chi yn ariannol, gan na allwn eich cynghori, fodd bynnag, byddwn yn gallu rhoi gwybodaeth i chi am fudd-daliadau yn ystod yr ymweliad neu gallwch gael gwybodaeth am fudd-daliadau yn uniongyrchol gan y Ganolfan Byd Gwaith neu drwy ymweld â'u gwefan yn www.gov.uk.

Os darperir gwasanaethau gofal/cymorth i'r person gan gynnwys seibiant dros nos gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, cânt eu hasesu'n ariannol dan bolisi Tâl Gwasanaethau Gofal a Chymorth Bro Morgannwg.

- **Mae'r person bellach wedi gorffen yn yr ysgol/ coleg ac yn defnyddio gwasanaethau a ariennir gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.**

Dylid hawlio budd-daliadau dan hawliad y person ei hun a bydd yn cael ei asesu'n ariannol i gyfrannu at y pecyn gofal dan bolisi Tâl Gwasanaethau Gofal a Chymorth Bro Morgannwg.

- **Mae'r person yn mynd i'r coleg oddi cartref yn ystod y tymor.**

Os taw dyma'r achos yna yn dilyn ei benblwydd yn 18 oed bydd y person yn cael ei asesu dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae gan y Cyngor ddyletswydd i godi tâl am ei leoliad. Gan fod yr awdurdod lleol yn darparu gofal a llety ni fydd gennych hawl mwyach i hawlio Credyd Treth Plant a Budd-dal Plant.

Yna dylid hawlio budd-daliadau yn enw'r person ei hun a byddai fel arfer yn cynnwys Credyd Cynhwysol / Lwfans Cymorth Cyflogaeth a Lwfans Byw i'r Anabl / Taliadau Annibyniaeth Bersonol.

Bydd Swyddog Asesu Ariannol o dîm Cyllid Gofal Cymunedol Cyngor Bro Morgannwg yn cyfrifo'r cyfraniad ariannol y bydd angen i'r person ei wneud ac yn rhoi gwybod i chi am y swm sy'n weddill ar gyfer treuliau personol. Mae swm y Lwfans Treuliau Personol wedi'i nodi yn y rheoliadau ac fel arfer caiff ei gynyddu bob mis Ebrill yn unol ag unrhyw gynnydd mewn budd-daliadau. Mewn amgylchiadau eithriadol eithafol gall Cyngor Bro Morgannwg amrywio'r lwfans treuliau personol, ond bydd angen i hyn gael ei gytuno gyda'r Pennaeth Gwasanaeth.

Pan fydd y person yn mynychu'r coleg preswyl, nid yw Eifen Gofal Lwfans Byw i'r Anabl / Eifen Byw Bob Dydd y Taliad Annibyniaeth Bersonol yn daladwy. Fodd bynnag, os bydd y person yn dod adref ar y penwythnos yna gall ddefnyddio cyfradd pro rata ar gyfer y cyfnod hwn. Fel arfer, mae elfen symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl / Taliad Annibyniaeth Bersonol yn parhau i gael ei thalu ac nid yw'n cael ei hystyried o fewn yr asesiad ariannol. Bydd y tâl a aseswyd yn adlewyrchu hyn a byddwch yn cael gwybod yn ysgrifenedig am y tâl a aseswyd a'r dulliau talu.

Os oes unrhyw un yn derbyn Lwfans Gofalwr am ofalu am y sawl sy'n mynychu'r Coleg, yna mae'n rhaid iddo ef hefyd hysbysu'r Uned Gofalwyr ar 0800 731 0297 o'r newid mewn amgylchiadau. Os bydd y person yn dod adref ar y penwythnos, yna gall barhau â'r taliadau, gan y bydd yn darparu o leiaf 35 awr yr wythnos o ofal i rywun neu wneud cais am gyfradd pro rata.

Mewn llawer o amgylchiadau mae'r Penodai yn cadw'r Apwynteaeth mewn perthynas â budd-daliadau sy'n daladwy gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a chyfrifoldeb y penodai yw eu hysbysu o'r newid mewn amgylchiadau. Gallai

"This form is available in English / Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg."

peidio â rhoi gwybod i'r Adran Gwaith a Phensiynau arwain at ordaliad budd-dal y bydd angen ei ad-dalu.

- **Mae'r person yn dychwelyd i fyw gartref ar ddiwedd y tymor.**

Tra bydd y person yn dychwelyd i fyw gartref gyda chi ar ddiwedd y tymor, ni chodir tâl am y lleoliad coleg preswyl. Fodd bynnag, os bydd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu pecyn gofal i'w gefnogi ar gyfer y cyfnod hwn y bydd gartref, bydd angen cwblhau asesiad ariannol gwahanol.

Bydd angen cwblhau'r asesiad ariannol dan bolisi Tâl Gwasanaethau Gofal a Chymorth Bro Morgannwg. Mae'r polisi wedi'i ysgrifennu yn dilyn canllawiau gan Lywodraeth Cymru. Gall Elfen Gofal y Lwfans Byw i'r Anabl / Elfen Byw Bob Dydd y Taliad Annibyniaeth Bersonol gael ei hailgyflwyno am y cyfnodau y mae'r person gartref. Cysylltwch â'r Uned Lwfans Byw i'r Anabl ar 0800 121 4600 neu'r Uned Taliad Annibyniaeth Bersonol ar 0800 121 4433 a byddant yn anfon y ffurflen angenrheidiol atoch i gadarnhau'r dyddiadau.

- **Wedi'u hariannu 100%** gan yr adran lechyd

Mewn perthynas â lleoliad gofal iechyd parhaus y GIG, yna cyfrifoldeb y Bwrdd lechyd yw hyn a byddai angen i'r cytundeb gael ei ystyried gan y Bwrdd.

Cewch y wybodaeth hon mewn iaith arall, mewn print bras, ar gwyno-ddisg neu ar ffurf symlach drwy holi. Ffoniwch y Tîm Arloesi a Gwybodaeth ar: **01446 704814** er mwyn gwneud trefniadau,

SS/PCC/AUG20